

Cwestiynau Cyffredin Ychwanegol COVID-19

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys Cwestiynau Cyffredin a gafodd AGC rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2020 pan oedd pandemig y Coronafeirws ar ei waethaf.

Rydym wedi'u hatgynhyrchu yma, er gwybodaeth, ond byddwch yn ymwybodol y gall rhai o'r canllawiau a nodwyd fod wedi'u diweddar. Edrychwch i weld a oes fersiynau mwy diweddar.

Os bydd gennych unrhyw ymholiadau neu unrhyw gwestiynau eraill yr hoffech eu codi, anfonwch e-bost atom yn CIW@gov.wales.

Cwestiynau cyffredinol

A oes gennych unrhyw gyngor i mi o ran colli enillion os oes angen i mi hunanynysu a/neu gau fy musnes dros dro?

Rydym yn deall bod hwn yn gyfnod anodd dros ben sy'n peri pryder i lawer o'n darparwyr. Byddem yn eich annog i ymweld â [gwefan Busnes Cymru](#) sy'n rhestru'r cymorth ariannol sydd ar gael i'r busnesau hynny y mae COVID-19 yn effeithio arnynt.

Hysbysiadau

A oes angen i mi wneud hysbysiadau i AGC o hyd?

Nid oes unrhyw newidiadau i'r gofynion i wneud hysbysiadau na'r system a ddefnyddir i'w gwneud – [AGC Ar-lein](#).

Pa newidiadau sydd wedi cael eu gwneud i'r ffurflen hysbysu am farwolaeth defnyddiwr gwasanaeth ar-lein, a pham?

Rydym wedi diwygio'r ffurflen ar-lein ar gyfer ein hysbysu am farwolaeth defnyddiwr gwasanaeth i gynnwys y coronafeirws (Covid-19) fel achos y farwolaeth.

Rydym wedi gwneud y newid hwn er mwyn ein galluogi i ddarparu data cryno mwy cywir ar farwolaethau pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol mewn perthynas â COVID-19.

Staffio

Os bydd AGC yn cael gwyod am bryderon am lefelau staffio, a fydd yn cyflwyno hysbysiadau diffyg cydymffurfio neu a fydd yn ystyried yr amgylchiadau?

Rydym yn gwerthfawrogi bod hwn yn gyfnod anodd iawn i ddarparwyr. Diogelwch a llesiant pobl yw ein blaenoriaeth o hyd. Byddwn yn adolygu pob pryder pan gaiff ei godi, a byddwn yn ffurfio ymateb cymesurool ac ystyriol. Os byddwn yn credu nad oedd darparwr yn cymryd mesurau priodol i liniaru'r risg hon, byddem yn ystyried cymryd camau gorfodi.

Os oes gan ddarparwyr unrhyw bryderon am eu gallu i gyflwyno'r gwasanaeth yn ddiogel, fe'u hanogir i [gysylltu â ni](#) i drafod y rhain â ni.

A fydd gan ddarparwyr y gallu i symud staff rhwng darpariaethau? Er enghraifft, staff cartref gofal nad ydynt wedi'u cofrestru yn darparu gofal mewn gwasanaeth gofal cartref, neu staff gwasanaeth dydd yn darparu gofal mewn lleoliad Gofal â Chymorth?

Yn y sefyllfa bresennol, rydym yn cydnabod y gall fod angen i ddarparwyr symud staff rhwng gwasanaethau er mwyn sicrhau diogelwch a llesiant pobl. Bydd yn bwysig bod staff sy'n gweithio mewn gwasanaethau anghyfarwydd yn cael eu goruchwylio a'u cefnogi'n dda.

A ddylai hyfforddiant a datblygiad staff barhau?

Yn ystod y cyfnod eithriadol hwn, rydym yn deall na fydd dysgu a datblygiad y staff yn gymaint o flaenoriaeth â'ch ffocws ar gadw'r bobl yn ddiogel. Bydd angen sefydlu staff sydd newydd eu recriwtio; rydym yn sylweddoli efallai na fydd yn bosibl cwblhau fframwaith sefydlu llawn Gofal Cymdeithasol Cymru. Dylai hyfforddiant adlewyrchu anghenion pobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau ac efallai y bydd angen newid ffyrdd o ddarparu hyfforddiant. Byddem yn disgwyl i'r holl staff gael eu goruchwylio a'u cefnogi, ond mae hyn yn arbennig o bwysig i staff newydd a gwirfoddolwyr.

Sut y bydd darparwyr yn llwyddo i gael pob aelod o staff wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru pan fyddant yn recriwtio nifer fawr o staff ychwanegol er mwyn ymateb i argyfwng coronafirws?

Rydym wedi bod yn cydweithio'n agos â [Gofal Cymdeithasol Cymru](#) ac rydym wedi cytuno i ymestyn y cyfnod cofrestru cyn y bydd angen i aelod o staff gofrestru o 6 mis i 12 mis, er mwyn caniatáu mwy o amser i bobl fodloni ei ofynion. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru hefyd wedi ymestyn y meini prawf cymhwysedd a gadarnhawyd, a ddylai hwyluso'r broses i aelodau o staff mwy profiadol sy'n dychwelyd i'r sector.

A yw'n iawn rhannu staff â gwasanaethau eraill yn ein hardal?

Mae'n bosibl y bydd angen i chi gydweithio â darparwyr eraill mewn ymateb i COVID-19 ac rydym yn cefnogi gweithio mewn partneriaeth. Mae'n bwysig sicrhau bod y staff wedi'u recriwtio'n ddiogel a'u bod yn gymwys i gefnogi'r bobl sy'n defnyddio eich gwasanaeth.

A yw'r gofynion i gael gwiriad DBS wedi newid?

Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi cyhoeddi trefniadau dros dro i ddarparu gwiriadau DBS a gwiriadau brys o'r Rhestrau Gwaharddedig ar gyfer Oedolion a Phlant, am ddim ar gyfer gweithwyr gofal iechyd a gweithwyr gofal cymdeithasol sy'n cael eu recriwtio mewn cysylltiad â darparu gofal a thriniaeth coronafeirws. Bydd y trefniadau hyn yn rhoi'r opsiwn i gyflogwyr benodi staff newydd i weithgarwch rheoleiddiedig gydag oedolion a/neu blant, ar yr amod nad yw'r unigolion wedi'u gwahardd a bod mesurau priodol ar waith i reoli'r unigolyn nes i'r gwiriad DBS llawn ddod i law.

Sut y gallaf gefnogi staff os ydw i'n cadw pellter cymdeithasol/yn ynysu?

Mae'n bwysig bod staff yn cael eu cefnogi'n dda yn ystod y cyfnod hynod heriol hwn. Mae'n iawn defnyddio dulliau rhithwir i wneud hyn gyda thechnoleg megis Skype, WhatsApp ac ati. Dylid cadw cofnod cryno o hyn o hyd.

Cwestiynau penodol yn ymwneud â'r gwasanaethau gofal hynny sydd wedi'u cofrestru o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) (RISCA)

A all staff gofal ganolbwyntio ar ddiwallu anghenion craidd pobl, megis gofal personol, maeth a meddyginiaeth pan fydd COVID-19 yn cael effaith ar bethau megis lefelau staffio er enghraifft?

Rydym yn deall bod hwn yn gyfnod heb ei debyg o'r blaen a bydd angen addasu'r cymorth a ddarperir yn unol â hynny.

A oes disgwyl i ddarparwyr helpu teuluoedd i gadw mewn cysylltiad â phobl sy'n byw mewn cartrefi gofal?

[Cyhoeddwyd canllawiau](#) (Dolen allanol) ar ystyried gwahanol ffyrdd o helpu teuluoedd i gadw mewn cysylltiad tra bo angen cynnal pellter cymdeithasol. Gall hyn gynnwys llythyrau, galwadau ffôn a Skype. Mae'n bwysig ystyried amseru hyn i deuluoedd a all fod yn gweithio.

A ddylem roi trefniadau DNACPR ar waith i bawb yn ein cartref gofal?

Dylid gwneud penderfyniadau am gynllunio gofal ymlaen llaw, gan gynnwys trefniadau DNACPR, fesul achos bob amser. Os oes gan unigolyn alluedd, mae'n bwysig trafod y cynllun gofal yn uniongyrchol ag ef ymlaen llaw. Os nad oes gan yr unigolyn y gallu i gymryd rhan yn y broses, dylid dilyn canllawiau budd pennaf, gan gynnwys ei deulu fel y bo'n briodol.

Ni ddylid byth roi cynlluniau gofal ymlaen llaw ar waith ar gyfer grwpiau o bobl, gyda threfniadau DNACPR neu hebddynt.

A fydd yn rhaid i ni wneud cais am awdurdodiad DoLS os bydd gofalu am rywun sydd â COVID-19 / yr amheuir bod ganddo COVID-19 yn golygu bod angen iddo aros yn ei ystafell wely?

Pan roddir triniaeth sy'n achub bywyd mewn cartrefi gofal neu ysbytai, gan gynnwys ar gyfer trin COVID-19, nid fydd hyn yn gyfystyr ag amddifadu o ryddid cyhyd â bod y driniaeth yr un fath ag a fyddai'n cael ei rhoi fel arfer i unrhyw unigolyn heb anhwylder meddyliol. Mae hyn yn cynnwys triniaeth i atal dirywiad unigolyn â COVID-19. I gael rhagor o wybodaeth, gweler y canllawiau a gyhoeddwyd ar 9 Ebrill "[The Mental Capacity Act \(2005\) \(MCA\) and Deprivation of Liberty Safeguards \(DoLS\) During the Coronavirus \(COVID-19\) Pandemic](#)".

Beth yw'r canllawiau i gartrefi sydd â gofal nyrsio nad oes ganddynt Nyrs Gofrestredig ar y safle bob amser a phan nad oes nyrsys asiantaeth/wrth gefn ar gael?

Mae'n rhaid i gymorth nyrsio gael ei ddarparu lle aseswyd bod gan bobl anghenion nyrsio. Os bydd darparwr gwasanaeth wedi ceisio pob dim, dylai gysylltu â

chomisiynwyr (awdurdod lleol a bwrdd iechyd) am gymorth; dylid hysbysu AGC hefyd. Lle y bo'n bosibl, dylid gwneud hyn ar gam cynnar pan gaiff anawsterau eu nodi. Mae hefyd yn bwysig bod staff sydd â symptomau yn cael eu cyflwyno i gael eu profi.

Os bydd rheolwr cofrestredig yn sâl, a oes unrhyw bosibilrwydd y gall rheolwr arall reoli mwy nag un gwasanaeth?

Os bydd rheolwr cofrestredig yn sâl neu'n hunanyysu, dylai'r darparwr roi trefniadau rheoli dros dro ar waith. Os bydd y rheolwr yn absennol am fwy nag 28 diwrnod, dylai'r unigolyn cyfrifol roi gwybod i AGC gan ddefnyddio AGC Ar-lein.

O dan Reoliad 69, gellir penodi rheolwr i reoli mwy nag un gwasanaeth, ond mae'n rhaid trafod hyn â ni.

Beth yw'r disgwyliad i asiantaethau gofal cartref gadw eu swyddfa ar agor?

Mae'n rhaid i'r gwasanaeth allu parhau i weithredu a bod â threfniadau amgen ar waith i gefnogi staff a darparu cyflenwadau. Dylid rhoi gwybod i'r bobl sy'n cael gwasanaeth am drefniadau cyswllt amgen. Dylid rhoi gwybod i AGC am y newidiadau hyn.

Mae meddygon teulu yn gofyn i staff gofal gyflawni arsylwadau lefel isel (cyfradd y galon, tymheredd, pwysedd gwaed ac ati) ac anfon y darlleniadau hyn ymlaen at feddyg teulu ar gyfer penderfynu. Ydy hyn yn iawn?

Ydy, ar yr amod bod y sawl sy'n ymgymryd â'r arsylwadau yn gymwys i wneud hynny a bod y clinigydd sy'n gofyn am y darlleniadau bob amser yn gwbl gyfrifol am ddehongli'r arsylwadau hyn ac am wneud penderfyniadau am ofal clinigol a thriniaeth.

Rwyf wedi cyflwyno cais i gofrestru/amrywio gwasanaeth o dan RISCA, a fyddwch yn gallu cofrestru hyn yn gyflym?

Rydym wedi symleiddio ein proses gofrestru/amrywio ac rydym yn blaenoriaethu'r gwaith hwn er mwyn creu capasiti yn y sector. [Gellir gweld arweiniad ar ein prosesau](#) wedi'u haddasu ar ein gwefan

A fydd yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau sydd wedi'u cofrestru â RISCA gyflwyno ffurflen flynyddol ym mis Mai 2020?

Yng ngoleuni'r pwysau presennol sydd ar ddarparwyr gofal cymdeithasol o ganlyniad i argyfwng Covid-19, mae AGC wedi bod yn trafod â Llywodraeth Cymru am y posibilrwydd o gyflwyno newidiadau deddfwriaethol i ohirio'r gofyniad i gyflwyno datganiad blynyddol am flwyddyn, tan fis Mai 2021.

Cytunwyd â hyn erbyn hyn. Felly, ni fydd yn ofynnol i ddarparwyr gwblhau datganiad blynyddol yn 2020.

A fydd AGC yn gorfodi'r rheoliadau o ran gwiriadau cyn cyflogi, gan gynnwys gwiriadau DBS ar gyfer staff gofal cymdeithasol, staff nyrsio a gwirfoddolwyr?

Mewn ymateb i'r coronafeirws (COVID-19), mae'r Swyddfa Gartref a'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) wedi rhoi trefniadau dros dro ar waith i ddarparu gwiriadau DBS a gwiriadau brys o'r Rhestrau Gwaharddedig ar gyfer Oedolion a

Phlant am ddim.

Bydd hyn yn berthnasol i weithwyr gofal iechyd a gweithwyr gofal cymdeithasol sy'n cael eu recriwtio mewn cysylltiad â darparu gofal a thriniaeth coronafeirws yng Nghymru a Lloegr.

Ceir rhagor o fanylion ar [wefan Llywodraeth y DU](#).

At hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno mesurau deddfwriaethol dros dro i lacio'r gofynion ar ddarparwyr cymorth cartref a chartrefi gofal i oedolion i gynnal gwiriadau cyn cyflogi ar gyflogeion, er mwyn helpu i gyflymu'r broses o recriwtio staff a gwirfoddolwyr ychwanegol yn ystod y pandemig.

Daeth y rheoliadau hyn – [Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig \(Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol\) \(Cymru\) \(Diwygio\) \(Coronafeirws\) 2020](#) – i rym ar 5 Mehefin. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau statudol ychwanegol. Mae'r rhain yn nodi [manyion pellach am sut y gall darparwyr gydymffurfio â'r rheoliadau](#).

A allwn ddefnyddio ystafelloedd a rennir i greu lle?

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno mesurau deddfwriaethol dros dro i gefnogi awdurdodau lleol, byrddau iechyd, darparwyr cymorth cartref a chartrefi gofal i oedolion mewn ymateb i bwysau a heriau argyfwng presennol COVID-19.

Mae hyn yn cynnwys llacio'r trothwy presennol o 15% ar gyfer ystafelloedd a rennir dros dro, er mwyn galluogi darparwyr gwasanaethau ag ystafelloedd gwag neu ystafelloedd nad ydynt yn cael eu defnyddio fel ystafelloedd gwely ar hyn o bryd i gynyddu'r uchafswm capasiti yn y cartref, lle bo angen gwneud hyn o ganlyniad i bandemig COVID-19. Dim ond gyda chytundeb AGC y gellir gwneud hyn (fel amrywiad ar wasanaeth presennol). Byddwn yn ystyried pob cais am amrywiad fesul achos unigol, gan ystyried buddiannau pennaf yr holl breswylwyr.

Daeth y rheoliadau hyn – [Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig \(Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol\) \(Cymru\) \(Diwygio\) \(Coronafeirws\) 2020](#) – i rym ar 5 Mehefin. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau statudol ychwanegol. Mae'r rhain yn nodi [manyion pellach am sut y gall darparwyr gydymffurfio â'r rheoliadau](#).

Os bydd fy nghynorthwywyr ar-lein enwebedig yn sâl, a oes modd i mi enwebu rhagor o bobl?

Rydym yn annog pob darparwr i enwebu sawl cynorthwydd ar-lein er mwyn sicrhau ei bod yn hawdd i chi allu rhannu gwybodaeth â ni. [Cliciwch yma](#) i ddysgu sut i sefydlu cynorthwydd ar-lein.

Nid yw hyn yn gymwys ar gyfer gwasanaethau Gofal Plant a Chwarae.

A yw'n dderbyniol gofyn i awdurdodau lleol gynnal asesiadau yn rhithwir, yn hytrach na dod i'r cartref gofal?

Bydd hyn yn dibynnu ar amgylchiadau unigol. Dylid trafod risgiau ymweld o gymharu â chynnal asesiad rhithwir â'r gweithiwr cymdeithasol, a dylai'r unigolyn, neu ei eiriolwr, gael ei gynnwys wrth wneud y penderfyniad hwnnw, lle bynnag y bo hynny'n bosibl. Mewn llawer o achosion, caiff asesiad rhithwir ei dderbyn yn ystod cam presennol y pandemig. Dylid cofnodi'r drafodaeth ynghylch yr asesiad risg.

A yw'n iawn i nyrsys cymunedol ddirprwyo tasgau i staff gofal, megis newid gorchuddion?

pan fydd staff gofal wedi'u hyfforddi ac yr ystyrir eu bod yn gymwys i gyflawni'r dasg y dylid dirprwyo tasgau nyrsio, megis gorchuddion clwyfau. Edrychwch ar y [canllawiau dirprwyo a ddatblygwyd ar gyfer staff iechyd a gofal](#). Os bydd achosion o ddirprwyo amhriodol, dylai'r gweithiwr gofal cymdeithasol wrthod ymgymryd â'r dasg a dylid uwchgyfeirio'r mater. Wrth uwchgyfeirio'r mater i uwch-reolwyr, dylid gofyn am yr hyfforddiant a'r cymorth priodol yn hytrach na gwrthod cefnogi'r gofal sydd ei angen ar yr unigolyn yn llwyr. Yn ystod y pandemig hwn, mae'n bwysig bod timau iechyd a gofal cymdeithasol weithio gyda'i gilydd er mwyn sicrhau na chaiff unrhyw glaf/preswylydd ei niweidio drwy gymryd camau gweithredu amhriodol neu hepgor camau gweithredu.

A oes modd i mi greu lle drwy droi lolfra neu storfa, er enghraifft, yn ystafell wely?

Rydym yn deall bod angen creu mwy o le. Os bydd darparwyr am droi ardaloedd presennol yn ystafelloedd gwely, byddai hyn yn golygu cynyddu eu huchafswm nifer. Felly, mae'n rhaid i ddarparwyr wneud cais i amrywio eu hamodau cofrestru i gynyddu eu huchafswm nifer. Gellir gwneud hyn drwy [AGC Ar-lein](#) a byddai'n golygu lanlwytho datganiad o ddiben diwygiedig a sgwrs ddilynol ag arolygydd. Byddwn yn blaenoriaethu'r ceisiadau hyn ond bydd yn rhaid eu hystyried fesul achos o ystyried natur ac amgylchiadau unigryw pob cartref gofal.

Wrth wneud cais am newid yn yr uchafswm nifer, bydd angen i ddarparwyr ystyried y cyfyngiadau cyfreithiol ar nifer y bobl y gellir eu lletya mewn ystafell a rennir.

A allwn ganiatáu i deuluoedd ymweld pan fydd person sy'n byw mewn cartref gofal yn agosáu at ddiwedd ei oes?

Lle y bo'n ddiogel i wneud hynny, dylid cefnogi perthnasau agosaf yr unigolyn i ymweld ag ef ar ddiwedd ei oes, fesul un. Mae'n bwysig dilyn canllawiau iechyd cyhoeddus ar gadw pellter cymdeithasol a chynnal arferion rheoli heintiau da, gan ddefnyddio cyfarpar diogelu personol os oes angen.

A all teuluoedd bellach ymweld â phobl sy'n byw mewn cartrefi gofal neu dai â chymorth?

Roedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi [canllawiau ar cadw pellter cymdeithasol y coronafeirws \(COVID-19\) i bawb yng Nghymru](#). Gweler manylion yn atoddedig.

Can I visit my loved one who is living in a care home if local lock down is imposed?

Where local lock down restrictions are imposed, local authorities and individual providers may make decisions to temporarily suspend visiting. Imposing restrictions on both indoor and outdoor care home visiting has significant impacts on the well-being of residents, therefore any decision will be carefully balanced between the protecting those living in care homes from infection, and ensuring their continued wellbeing. Public Health Wales are offering expert advice based on the specific situation in the local area.

In exceptional circumstances, for example end of life situations, in areas where local restrictions have been imposed, all visits to care homes in these circumstances will continue to be permitted in all areas

Rwy'n rheolwr cartref gofal, ble y gallaf ddod o hyd i gyngor a chanllawiau i fy helpu?

[Mae gan Gofal Cymdeithasol Cymru lawer o adnoddau i'ch helpu.](#) Hefyd, fel rhan o'i raglen waith ar gyfer cefnogi cartrefi gofal i wella ansawdd y gofal i bobl hŷn ledled Cymru, mae gwasanaeth Gwelliant Cymru wedi datblygu'r canlynol fel adnodd unigol sy'n cynnig **[gwybodaeth mewn perthynas â chartrefi gofal.](#)**

A ddylai staff gofal fod yn gwisgo cyfarpar diogelu personol i ofalu am eu preswylwyr erbyn hyn?

Dylid dilyn cyngor **[lechyd Cyhoeddus Cymru.](#)** Cafodd y canllawiau eu diweddarau ar 12 Ebrill yn unol â'r farn bod tosglwyddiad parhaus mewn cymunedau ledled y DU erbyn hyn. Mae'n cynnwys argymhellion gwell mewn perthynas â chyfarpar diogelu personol ar gyfer amrywiaeth eang o gyd-destunau gofal cymdeithasol. Dylid defnyddio cyfarpar diogelu personol fel y nodir yn Nhabl 4 o Ganllawiau lechyd Cyhoeddus Cymru.

Gellir dod o hyd i **[ganllawiau ychwanegol ar sut i weithio'n ddiogel mewn cartrefi gofal](#)** ar wefan Llywodraeth y DU.

A ellir cynnal ymweliadau drwy'r ffenestr os bydd brigiad o achosion o COVID-19 mewn cartref gofal?

Gellir cynnal ymweliadau drwy'r ffenestr mewn cartrefi gofal lle mae brigiad o achosion o COVID-19 os:

- gall staff y cartref gofal gefnogi hyn
- na fydd ymwelwyr yn mynd i mewn i'r cartref
- gall y preswyllydd ddod i ffenestr heb ddod i gysylltiad â phreswylwyr agored i niwed eraill os yw wedi'i heintio, neu ddod i gysylltiad â phreswylwyr sydd wedi'u heintio

Cwestiynau penodol yn ymwneud â gwasanaethau gofal plant a chwarae.

A all gwirfoddolwyr sydd â gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ofalu am blant er mwyn i rieni allu gweithio, er enghraifft mewn meithrinfa mewn gweithle neu swyddfa?

Os na thelir am y gofal plant hwn ac mae'r bobl sy'n gofalu am y plant yn wirfoddolwyr di-dâl, yna byddent wedi'u heithrio rhag cofrestru. Os oes unrhyw wobr am ddarparu'r gofal, byddai'n rhaid ei gofrestru.

Yn ystod y cyfnod pan fyddwn ar gau oherwydd Coronafeirws, a allaf barhau i godi tâl ar rieni nad yw eu plant yn mynychu fy lleoliad?

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod, mewn llawer o achosion, na fydd yr yswiriant sydd gan ddarparwyr blynyddoedd cynnar yn eich cwmpasu am incwm a gollir pan fyddwch wedi cau oherwydd COVID-19. Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn i chi fel darparwr gofal plant fod yn rhesymol a chytbwys wrth ddelio â rhieni. Mae'n bosibl y bydd angen i chi ystyried trefniadau contract unigol hefyd. Mae Llywodraeth Cymru yn adolygu'n barhaus y cymorth ychwanegol y gallai fod ei angen ar fusnesau.

Os bydd Meithrinfa wedi rhoi staff ar ffyrlo, gan gynnwys aelodau o'r tîm rheoli, a fydd angen i ni anfon hysbysiad?

Dim ond os bydd hynny'n effeithio ar gymarebau/lefelau staffio neu'n golygu bod y gwasanaeth bellach ar gau.

Mae pob cwrs cymorth cyntaf wedi cael ei ganslo ac rwy'n bryderus na allaf adnewyddu fy nhystysgrif.

Rydym yn ymwybodol bod rhai cyrsiau ar gael, gan gynnwys cwrs ar-lein 1 diwrnod a chwrs ymarferol 1 diwrnod, ond bod lleoedd yn brin oherwydd mesurau cadw pellter cymdeithasol. Os bydd angen i chi adnewyddu eich tystysgrif cymorth cyntaf ac na allwch ddilyn cwrs ymarferol, yna yn y lle cyntaf, gallwch gwblhau cwrs ar-lein i ategu eich gwybodaeth ac yna dilyn cwrs ymarferol addas cyn gynted â phosibl.